

Tribiwnlys Adolygu
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review
Tribunal for Wales

Canllaw Pwerau'r Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Llawr 2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5328
Ffacs: 0300 025 7331
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk

Mae'r meini prawf y mae'n rhaid i'r tribiwnlys eu hystyried wedi'u nodi isod.

Bydd y Tribiwnlys yn rhyddhau'r claf o'r adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r gorchymyn y mae'n destun iddo, os

Adran 2

Nid yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n gofyn eich bod yn cael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer asesiad neu asesiadau a ddilynir gan driniaeth, **neu**;
- bod eich cadw'n cael ei gyfiawnhau er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun, gyda golwg ar ddiogelu eraill.

Adrannau 3 neu 37 neu 37N

Nid yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;
- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, **neu**;
- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi **neu**;

Os oedd y cais wedi'i wneud gan eich perthynas agosaf, **nid yw'n fodlon:**

- pe byddech yn cael eich rhyddhau y byddech yn debygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n beryglus i eraill neu i chi eich hun.

Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu nad ydych yn barod i'ch rhyddhau, er mwyn hwyluso eich rhyddhad rywbryd yn y dyfodol, gall y Tribiwnlys argymhell:

- eich bod yn cael caniatâd i adael yr ysbyty am gyfnodau
- eich bod yn cael eich trosglwyddo i ysbyty arall
- eich bod yn cael eich trosglwyddo i warcheidiaeth
- bod eich RC yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn triniaeth gymunedol.

Hefyd, os na weithredir ar yr argymhelliad hwnnw, gall y Tribiwnlys ailymgynnull i ailystyried eich achos

Adran 17A

Nid yw'n fodlon

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;

- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, neu;
- ei bod yn angenrheidiol y dylai'r clinigwr cyfrifol allu eich galw'n ôl i'r ysbyty neu;
- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi;

Os oedd y cais wedi'i wneud gan eich perthynas agosaf, **nid** yw'n fodlon:

- pe byddech yn cael eich rhyddhau y byddech yn debygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n beryglus i eraill neu i chi eich hun.

Pwerau eraill i ryddhau Adran 3, 17A neu 37

- Mewn amgylchiadau neilltuol, ac os ydych chi'n cael eich cadw o dan Adran 3, neu 17A, neu 37, mae gan y Tribiwnlys bŵer ychwanegol i ddiddymu'r Adran neu'r Gorchymyn hyd yn oes os na chydymffurfir â'r meini prawf cyfreithiol uchod. Gelwir hyn yn bŵer disgresiwn.

Gorchmynion Gwarcheidiaeth (Adrannau 7 neu 37)

Mae **yn** fodlon:

- nad ydych chi'n dioddef o anhwylder meddwl neu;
- **nad** yw'n angenrheidiol er mwyn eich lles chi neu i ddiogelu eraill y dylech barhau'n destun Gwarcheidiaeth.

Adran 37/41 neu Adran 5 CPI (cyfyngedig)

Bydd y Tribiwnlys yn eich rhyddhau yn amodol ar amodau

Nid yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;
- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, **neu**;
- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi **ac**;

Ei fod yn fodlon:

- y dylech fod yn agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty ar gyfer triniaeth bellach.

Os nad yw'r Tribiwnlys yn fodlon y dylech barhau'n agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth bellach, bydd yn eich rhyddhau'n ddiamod.

Adran 41 (Rhyddhad Amodol)

Gall y Tribiwnlys amrywio'r amodau y byddwch yn amodol arnynt, neu os nad yw'n fodlon y dylech barhau'n agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth bellach, bydd yn eich rhyddhau'n ddiamod.

Cyfyngiadau Cyfyngu (trosglwyddo o garchar)

(Adran 47/49, 48/49) Nid oes gan y Tribiwnlys bŵer i'ch rhyddhau. Ni all ond hysbysu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r hyn y byddai'n wneud pe bai ganddo bŵer o'r fath. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol naw deg diwrnod i ystyried canfyddiadau'r Tribiwnlys.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.